OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2014 Rhif 2162 (Cy. 211) (C. 97)

# ADDYSG, CYMRU

# Gorchymyn Deddf Addysg (Cymru) 2014 (Cychwyn Rhif 2) 2014

## NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Dyma'r ail orchymyn cychwyn a wnaed gan Weinidogion Cymru o dan Ddeddf Addysg (Cymru) 2014 ("Deddf 2014"). Mae'r Gorchymyn hwn yn dwyn i rym ar 18 Awst 2014 adran 2 i'r graddau y mae'n ymwneud ag Atodlen 1 (cyngor y gweithlu addysg) o Ddeddf 2014 a'r paragraffau a ganlyn o Atodlen 1 iddi—

(a) paragraff 3(1), (2), (3), (4)(a) a (5) (aelodaeth);

(b) paragraff 4 (aelodaeth: darpariaeth bellach);

(c) paragraff 5 (deiliadaeth);

(d) paragraff 6 (diswyddo);

(e) paragraff 7 (tâl, lwfansau a threuliau aelodau);

(f) paragraff 9(1), (2) a (3) (i'r graddau y mae'n ymwneud â'r prif swyddog); ac

(g) paragraff 12 (pwyllgorau'n gyffredinol).

Mae'r adran honno a'r paragraffau yn Atodlen 1 i Ddeddf 2014 yn gwneud darpariaeth mewn perthynas ag aelodaeth Cyngor y Gweithlu Addysg a phenodi aelodau iddo.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Gorchymyn hwn. O ganlyniad, ystyriwyd nad oedd yn angenrheidiol cynnal asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Gorchymyn hwn.

## NODYN AM Y GORCHMYNION CYCHWYN CYNHARACH

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

| *Y Ddarpariaeth* | *Y Dyddiad Cychwyn* | *Rhif O.S.* |
|---|---|---|
| Adran 42 | 14 Gorffennaf 2014 | O.S. 2014/1605 (Cy. 163) (C. 63) |
| Adran 43 | 1 Medi 2014 | O.S. 2014/1605 (Cy. 163) (C. 63) |
| Adran 44 | 14 Gorffennaf 2014 | O.S. 2014/1605 (Cy. 163) (C. 63) |
| Adran 48 | 14 Gorffennaf 2014 | O.S. 2014/1605 (Cy. 163) (C. 63) |
| Paragraff 1(1), (2) a (6) o Atodlen 3 | 14 Gorffennaf 2014 | O.S. 2014/1605 (Cy. 163) (C. 63) |

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2014 Rhif 2162 (Cy. 211) (C. 97)

# ADDYSG, CYMRU

## Gorchymyn Deddf Addysg (Cymru) 2014 (Cychwyn Rhif 2) 2014

*Gwnaed* *7 Awst 2014*

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 50(4) o Ddeddf Addysg (Cymru) 2014(**1**), yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn:

### Enwi

**1.** Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Deddf Addysg (Cymru) 2014 (Cychwyn Rhif 2) 2014.

### Darpariaethau sy'n dod i rym ar 18 Awst 2014

**2.** Y diwrnod penodedig ar gyfer dod â'r darpariaethau a ganlyn o Ddeddf Addysg (Cymru) 2014 i rym yw 18 Awst 2014—

(a) adran 2 i'r graddau y mae'n ymwneud ag Atodlen 1 (cyngor y gweithlu addysg);

(b) yn Atodlen 1—

(i) paragraff 3(1), (2), (3), (4)(a) a (5) (aelodaeth);

(ii) paragraff 4 (aelodaeth: darpariaeth bellach);

(iii) paragraff 5 (deiliadaeth);

(iv) paragraff 6 (diswyddo);

(v) paragraff 7 (tâl, lwfansau a threuliau aelodau);

(vi) paragraff 9(1), (2) a (3) (i'r graddau y mae'n ymwneud â'r prif swyddog); a

(vii) paragraff 12 (pwyllgorau'n gyffredinol).

(**1**) 2014 dccc 5.

*Huw Lewis*

Y Gweinidog Addysg a Sgiliau, un o Weinidogion Cymru

*7 Awst 2014*